**Papur i'w nodi**

# Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygu Gweithrediad ac Effaith y Cynllun Busnes

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r papur hwn i'w nodi yn darparu i aelodau'r Cyngor y Cylch Gorchwyl ar gyfer adolygu gweithrediad y Cynllun Busnes yn unol ag Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau erbyn Mawrth 2013.

2. Atodir y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad yn Nogfen 1.

## CEFNDIR

3. Mae Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn llunio cynllun i bennu sut y maent, wrth ymarfer eu swyddogaethau, yn bwriadu ystyried materion sy'n effeithio ar fuddiannau busnesau. Drafftiwyd y Cynllun Busnes (y Cynllun) ar ôl ymgynghori helaeth gyda Busnes Cymru a TUC Cymru. Gyda chytundeb y Cabinet, cyhoeddwyd y Cynllun yn 2008.

4. Un o ofynion y Cynllun yw y dylid ymgymryd ag adolygiadau ffurfiol rheolaidd, o leiaf bob dwy flynedd, ar y modd y'i gweithredwyd a chyflwyno adroddiad i Gynulliad Cymru. Cytunwyd ar yr adolygiad cyntaf yng nghyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011.

### Dull Gweithredu

5. Bydd Cyngor Adnewyddu'r Economi yn comisiynu'r adolygiad ac yn derbyn yr adroddiad.

6. Bydd Cyngor Adnewyddu'r Economi yn penodi'r Gweithgor fel y Grŵp Llywio ar gyfer yr adolygiad.

7. Cynhelir yr adolygiad ar y cyd gan Swyddogion Llywodraeth Cymru ac Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (WSPU).

8. Bydd yr adolygiad yn ystyried adroddiad Mawrth 2011 fel sail ar gyfer datblygu'r adroddiad ar weithrediad ac effaith y Cynllun Busnes.

### Amseriad

9. Cyflwynir yr adolygiad drafft i'r cyfarfod o Gyngor Adnewyddu'r Economi ar 28 Ionawr 2013.

10. Atodir amserlen sy'n nodi camau'r adolygiad yn Nogfen 2.

**CAE 24/09/12**

**Papur i'w nodi**

Dogfen 1

## Cylch Gorchwyl
## ar gyfer
## Adolygu Gweithrediad ac Effaith y Cynllun Busnes

### Cefndir

Drafftiwyd y Cynllun Busnes ar ôl ymgynghori helaeth gyda Busnes Cymru a TUC Cymru. Gyda chytundeb y Cabinet, fe'i cyhoeddwyd yn 2008. Yr egwyddor arweiniol yn y Cynllun yw y dylai'r byd busnes gael ei gynnwys yn y broses o lunio polisi cyn gynhared ag y bo modd. Un o ofynion y Cynllun yw y dylid ymgymryd ag adolygiadau ffurfiol rheolaidd, o leiaf bob dwy flynedd, ar y modd y'i gweithredwyd a chyflwyno adroddiad i Gynulliad Cymru (paragraff 43, Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Cytunwyd ar yr adolygiad cyntaf yng nghyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011.

Mae consensws eang yn parhau o ran dilysrwydd egwyddorion sylfaenol y Cynllun Busnes.

Mae Cyngor Adnewyddu'r Economi yn gadarn bellach ac fe'i cefnogir gan y Gweithgor – sy'n gyfrifol am yrru gwaith y Cyngor yn ei flaen i sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar weithredu.

### Pwrpas ac Amcanion

Ymgymryd ag adolygiad o 'Weithrediad ac Effaith y Cynllun Busnes' sydd:

a) Yn ymchwilio i weithrediad y Cynllun Busnes hyd yma.

b) Yn ymchwilio i ba mor effeithiol yw gweithrediad y Cynllun Busnes ledled y Llywodraeth.

c) Yn ystyried y gwersi a ddysgwyd.

d) Yn gwneud argymhellion ar weithrediad y Cynllun Busnes i'r dyfodol.

### Amseriad

Cyflwynir yr adolygiad drafft i gyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi ar 28 Ionawr 2013. Cynigir y bydd y Cyngor yn dirprwyo unrhyw waith ychwanegol i Weithgor y Cyngor er mwyn galluogi rhoi'r adroddiad terfynol gerbron Cynulliad Cymru ar gyfer Ebrill 2013.

**Papur i'w nodi**

**Dull Gweithredu**

- Cyngor Adnewyddu'r Economi fydd yn comisiynu'r adolygiad ac yn derbyn yr adroddiad.

- Bydd Gweithgor Cyngor Adnewyddu'r Economi yn ffurfio'r Grŵp Llywio ar gyfer yr adolygiad.

- Cynhelir yr adolygiad ei hun ar y cyd gan Swyddogion Llywodraeth Cymru ac Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (WSPU) (ar ran y Partneriaid Cymdeithasol).

- Bydd yr adolygiad yn ystyried adroddiad Mawrth 2011 fel sail i ddatblygu'r adroddiad ar weithrediad ac effaith y Cynllun Busnes.

- Ceisir mewnbwn gan randdeiliaid, yn fewnol ac yn allanol er mwyn llywio'r adolygiad a nodi argymhellion.

- Bydd y prif faterion ac argymhellion drafft yn cael eu crynhoi mewn adolygiad interim.  Rhennir hwn gyda rhanddeiliaid pan fydd y Gweithgor Swyddogion yn gofyn am eu sylwadau.

- Bydd yr adolygiad wedi'i wneud yn derfynol a chyflwynir yr adroddiad gerbron Cynulliad Cymru yn unol ag Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Papur i'w nodi**

Dogfen 2

| **Amserlen ar gyfer adolygu Gweithrediad y Cynllun Busnes i'w gwblhau erbyn Ebrill 2013** | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiadau** |
| Cylch Gorchwyl ar gyfer cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi. | 24 Medi 2012 |
| Ymgymryd ag adolygiad o weithrediad y Cynllun Busnes. | Medi 2012 i Ionawr 2013 |
| Adroddiad drafft i gyfarfod llawn Cyngor Adnewyddu'r Economi | 28 Ionawr 2013 |
| Gweithgor CAE i adolygu'r drafft terfynol. | 8 Mawrth 2013 |
| Cyflwyno'r adroddiad i'w roi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 29 Mawrth 2013 |